Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL | | VOLUNTARY SECTOR LIAISON COMMITTEE |
| DYDD IAU, 3 HYDREF 2013 am 2.00 o'r gloch | | THURSDAY, 3 OCTOBER, 2013 at 2:00 p.m. |
| NEUADD GYMUNED TALWRN COMMUNITY HALL | | TALWRN COMMUNITY HALL |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Cynghorwyr/Councillors Jim Evans, Kenneth P.Hughes, Alun Mummery, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams

**SECTOR GWIRFODDOL / VOLUNTARY SECTOR**

Islwyn Humphreys (Samariaid/Samaritans)
Mrs Dilys Shaw (Cadeirydd Medrwn Môn Chair)
Aled Roberts (Taran)
Eleri Lloyd Jones (Age Cymru)
Cadi Roberts (Merched y Wawr)

**IECHYD / HEALTH**

Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Partneriaeth Cymunedol, BIPBC/Assistant Director of Community Development, BCUHB

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION CYFARFOD 11 GORFFENNAF, 2013** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2013.

**3 BWRDD GWASANAETH LLEOL**

Derbyn cyflwyniad gan Mr Trystan Pritchard, Rheolwr Uned Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn.

**4 FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL INTEGREDIG** (Tudalennau 7 - 28)

Y Cyfarwyddwr Cymuned i adrodd ar y ddogfennaeth ynghylch yr uchod.

**5 RHAGLEN TRAWSNEWID CORFFORAETHOL Y CYNGOR**

Rheolwraig Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol y Cyngor i gyflwyno trosolwg o'r Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol.

**6 MATERION CYLLIDOL**

Ystyried materion cyllidol yn codi.

**7 CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR CYSWLLT**

Cytuno ar leoliad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor sydd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener, 17 Ionawr, 2014.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL Y SECTOR GWIRFODDOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2013

**PRESENNOL:** Mr Islwyn Humphreys (Sector Gwirfoddol) (Cadeirydd)

**Awdurdod Lleol**

Y Cynghorwyr Jim Evans, Alun W Mummery a K P Hughes

**Sector Gwirfoddol**

Eleri Lloyd Jones
Aled Roberts
Mrs Dilys Shaw

**Sector Iechyd**

Wyn Thomas, BIPBC – Cyfarwyddwr Cynorthwol – Datblygiad Cymunedol

**WRTH LAW:** Mr John R.Jones (Prif Swyddog Medrwn Môn)
Mrs Gwen Carrington (Cyfarwyddwr Cymuned – CSYM)
Mr J.Huw Jones (Pennaeth Gwasanaeth, Polisi – CSYM)
Mr Mark Gahan (Swyddog Gwneud y Cysylltiadau -Medrwn Môn)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Cadi Roberts (Sector Gwirfoddol)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Ms Lyndsey Williams (Rheolwraig Prosiect – Medrwn Môn), Miss Emily K.Jones (Sylwedydd)

---

**1 CADEIRYDD**

Etholwyd Mr Islwyn Humphreys oedd yn cynrychioli'r Sector Gwirfoddol fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt.

Diolchodd Mr Islwyn Humphreys i'w gyd aelodau ar y Pwyllgor am eu hymddiriedaeth ynddo a diolchodd hefyd i'w ragflaenydd yn y Gadair, y Cynghorydd Kenneth Hughes am ei gyfraniad a'i arweiniad yn ystod ei dymor yn y swydd.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso wedyn i'r holl aelodau oedd yn newydd i'r Pwyllgor Cyswllt i'w cyfarfod cyntaf ac estynnodd groeso hefyd i Miss Emily K. Jones oedd yn bresennol fel sylwedydd fel rhan o'i phrofiad gwaith.

**2 IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn cynrychioli'r Awdurdod Lleol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**4 COFNODION CYFARFOD 15 EBRILL**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ar 15 Ebrill, 2013.

Materion yn codi –

- Cyfeiriodd Prif Swyddog Medrwn Môn at fater cyfranogiad y sector gwirfoddol ym mhroses sgriwtini'r Awdurdod ac yn benodol y mater o hyfforddiant a oedd, yn ôl ei ddealltwriaeth o, yn parhau i Aelodau Etholedig y Cyngor. Dywedodd iddo gael ei grybwyll yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor y gallai cyfleon hyfforddiant oedd yn cael eu cynnig i Aelodau Etholedig ynglŷn â sgriwtini effeithiol gael ei ymestyn i gynrychiolwyr perthnasol yn y sector gwirfoddol. Aeth y Swyddog ymlaen i ddweud ei fod yn teimlo bod oedi gormodol gydag ymgysylltu gyda'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod y sector wedi ei baratoi'n ddigonol ac yn briodol ar gyfer cymryd rhan mewn sgriwtini.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) wrth y Pwyllgor bod y Rheolwr Sgriwtini yn bwriadu adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod nesaf. Roedd Aelodau Etholedig wedi cael hyfforddiant mewn amryw o feysydd fel rhan o'r broses anwytho. Cadarnhaodd ei bod yn cael ei gydnabod bod gan y sector gwirfoddol rôl allweddol i'w chwarae o fewn sgriwtini a dywedodd y byddai'n holi am y sefyllfa ynglŷn â hyfforddiant sgriwtini.

  **Camau Gweithredu'n Codi: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i fynd ar ôl y mater hwn gyda'r Rheolwr Sgriwtini, sef y posibilrwydd o gynnwys cynrychiolwyr y sector gwirfoddol mewn unrhyw drefniadau hyfforddiant sgriwtini oedd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.**

- Holodd cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol ynglŷn â statws yr adolygiad o Gontractau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac am ffurfio fframwaith y gellir cytuno ar gontractau oddi mewn iddo.

  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cymuned y daethpwyd i gytundeb ynglŷn â thempled ac er bod yna rai problemau gyda chapasiti, yr amcan yw cwblhau'r gwaith yn ôl y trefniadau oedd wedi eu hamlinellu yn y cyfarfod diwethaf. Mae'r adolygiad a'i gwblhau wedi cymryd arno arwyddocâd mwy wrth i sefyllfa gyllido llywodraeth leol wynebu pwysau cynyddol. Fodd bynnag, rhaid cynnal yr adolygiad ym mhob gwasanaeth ac er bod materion eraill sydd angen sylw wedi ymyrryd rhywfaint yn y cyfnod ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor, y nod o hyd yw sefydlu methodoleg a fframwaith ar gyfer cyllido contractau gyda'r sector gwirfoddol yn ystod yr amser rhwng rŵan a'r hydref.

- Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei fod wedi cael trafodaethau gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ynglŷn â'r Cod Cyllido y cafwyd cytundeb bod angen trafodaeth fanwl yn ei gylch gyda mewnbwn gan Swyddogion Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cymuned. Y bwriad yw galw cyfarfod mor fuan â phosibl a dod ag adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Cyswllt.

  **Camau Gweithredu'n Codi: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) a Phrif Swyddog Medrwn Môn i gysylltu i drefnu cyfarfod o'r swyddogion perthnasol i drafod y Côd Cyllido ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.**

- Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) pwy fyddai'r cynrychiolwyr newydd o blith aelodau etholedig y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Cyswllt a holodd a oedd Bwrdd Iechyd Prif Ysgol Betsi Cadwaladr wedi ystyried y mater o gael cynrychiolaeth. Dywedodd Mr Wyn Thomas BIPBC y byddai ef ei hun neu Eleri Lloyd fel y rheolwr lleol yn fwy na thebyg o barhau i fod yn bwynt cyswllt rhwng y Pwyllgor a'r Bwrdd Iechyd ac nad oedd yn rhagweld unrhyw newid yn y sefyllfa honno yn y tymor byr.

  Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn bod aelodaeth y sector gwirfoddol ar y Pwyllgor Cyswllt hefyd wedi gweld newid yn dilyn yr etholiad. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod dros 80

o unigolion wedi cymryd rhan yn yr etholiad a bod dros 20 o'r rhai a oedd yn llwyddiannus wedi rhoi eu henwau ymlaen i'w hystyried fel cynrychiolwyr y sector ar y Pwyllgor Cyswllt ac roedd ef yn credu bod hynny yn destament i lefel y diddordeb yn y Pwyllgor a'i weithgareddau. Dywedodd y Swyddog bod yr unigolion hynny a oedd wedi nodi eu diddordeb mewn bod yn aelod o'r Pwyllgor Cyswllt i bob pwrpas yn ffurfio cronfa o aelodau ar gyfer cael cyfranwyr i broses sgriwtini'r Awdurdod.

- Holodd y Cadeirydd am y sefyllfa mewn perthynas â'r Cytundeb Compact. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) bod y Compact yn barod i'w arwyddo'n ffurfiol gan y partïon oedd â diddordeb ac mewn ymateb i awgrym gan Brif Swyddog Medrwn Môn y dylai'r digwyddiad gael ei nodi'n briodol, cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) gan ddweud y byddai'r mater yn cael ei ystyried.

  **Camau Gweithredu'n Codi: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) a Phrif Swyddog Medrwn Môn i gysylltu i drefnu dull priodol o gydnabod achlysur arwyddo'r Cytundeb Compact Lleol, 2013.**

## 5 CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Rhoddwyd ystyriaeth i 'r cylch gorchwyl newydd arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol fel oedd wedi ei gyflwyno i'r cyfarfod ar 15 Ebrill, 2013.

Eglurodd Prif Swyddog Medrwn Môn bod y cylch gorchwyl newydd yn cael ei ailgyflwyno i sylw'r Pwyllgor Cyswllt a'r aelodau newydd newydd fel y gallai aelodau fod yn glir ynglŷn â rôl a phwrpas y fforwm. Dywedodd y Swyddog bod angen diweddaru'r ddogfen fel ei bod yn adlewyrchu aelodaeth newydd y Pwyllgor Cyswllt.

Awgrymodd Mr Wyn Thomas, BIPBC, oherwydd mai dim ond un aelod sydd gan BIPBC yn gwasanaethu ar y Pwyllgor, y gallai'r cworwm arfaethedig o ddau berson o bob un o'r tri grŵp ar y Pwyllgor gael ei adolygu i ddarllen dau berson o bob un o grwpiau'r Awdurdod Lleol a'r Sector Gwirfoddol fel na fyddai absenoldeb cynrychiolydd o'r sector iechyd o unrhyw gyfarfod yn rhwystro'r cyfarfod rhag symud ymlaen a thrafod busnes.

**Cytunwyd i dderbyn y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cyswllt ar yr amod y dylid adlewyrchu aelodaeth newydd y Pwyllgor a'r cynnig yng nghyswllt cworwm y Pwyllgor.**

**Camau Gweithredu'n Codi: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mewn ymgynghoriad gyda Phrif Swyddog Medrwn Môn i ddiwygio'r gylch gorchwyl yn y modd a amlinellwyd.**

## 6 Y COMPACT A'R POLISI GWIRFODDOLI

Cyflwynwyd er gwybodaeth y Pwyllgor, gopi o'r Polisi Compact a Gwirfoddoli fel oedd wedi ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth, 2013.

Roedd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) am atgoffa'r Aelodau bod egwyddorion y Cytundeb Compact wedi eu ffurfioli gan gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a'u bod yn ffurfio swyddogaeth graidd y Pwyllgor Cyswllt. Dywedodd ei bod yn awr yn amserol hefyd i adolygu'r Côd Cyllido er mwyn adlewyrchu newidiadau ac anghenion newydd. Y bwriad yw datblygu Rhaglen Waith yn seiliedig ar egwyddorion y Compact ac i hyrwyddo trafodaeth ystyrlon ac adeiladol rhwng y tri pharti sydd wedi ei dderbyn. Rhaid gwneud gwaith pellach ar y Polisi Gwirfoddoli mewn paratoad ar gyfer ei weithredu.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod y drafodaeth o ran y Polisi Gwirfoddoli wedi dechrau a bod y cam cyntaf yn golygu nodi'r gwirfoddolwyr o fewn y sustem ar hyn o bryd a chael eglurder ynghylch gofynion GDG ac atgyfnerthu'r trefniadau cyfredol. Byddai'r ail haen wedyn yn golygu nodi cyfleon eraill i wirfoddoli mewn meysydd lle mae angen mewnbwn gwirfoddoli yn unol â blaenoriaethau gwasanaeth. Rhaid i'r drafodaeth honno gael ei chynnal gyda'r sector gwirfoddol gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor wrth i'r sefyllfa esblygu.

Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei fod o'r farn bod cyfle'n bodoli i ddod i well dealltwriaeth ar y ddwy ochr a gwell cydweithrediad ynglŷn ag agoriadau i wirfoddolwyr ac y byddai'r sector gwirfoddol yn hapus i gyfrannu tuag at wneud y mwyaf o'r agoriadau oedd ar gael.

**Cytunwyd i nodi'r sefyllfa.**

**Camau Gweithredu'n Codi: Y Cyfarwyddwr Cymuned a Phrif Swyddog Medrwn Môn i ymgynghori gyda golwg ar symud ymlaen gyda materion gwirfoddoli fel oedd wedi eu hamlinellu ac i ddiweddaru'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.**

**7 MATERION LLYWODRAETH CYMRU - Y COMISIWN AR WASANAETH CYHOEDDUS A DARPARIAETH YNG NGHYMRU**

- Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor y cylch gorchwyl a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Llywodraeth Cymru ar Lywodraethau a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad eang o'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu llywodraethu a'u darparu yng Nghymru drwy Gomisiwn o dan gadeiryddiaeth Syr Paul Williams fyddai'n adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2013. Dywedodd y Swyddog bod angen ystyried canlyniad y Comisiwn a'i argymhellion yng nghyswllt modelau ar gyfer darparu gwasanaeth pan gânt eu cyhoeddi. Mae proses ymgynghori yn cael ei chynnal ar hyn o bryd a bydd cyfle i ymateb i'r Comisiwn drwy'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a dulliau eraill. Bydd y sector gwirfoddol yn cael gwybodaeth ynghylch mewnbwn y Cyngor i'r Comisiwn. Mae yna farn gyffredinol nad yw strwythur presennol y ddarpariaeth o Wasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru yn gynaliadwy yn y tymor hir.

  Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei bod yn bwysig i'r sector hefyd ymateb i'r Comisiwn yn arbennig o ystyried y ddirnadaeth bod gweithredu ar lefel leol yn gynyddol yn cael ei ddisodli gan drefniadau rhanbarthol.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned wrth yr Aelodau bod profiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o weithio yn nodi bod y ffordd o feddwl ar lefel genedlaethol yn gryf i gyfeiriad trefniadau gweithio ehangach naill ai ar sail ranbarthol neu genedlaethol ac roedd yr her yn gorwedd mewn cysylltu'r agwedd hon gyda gwerthuso canlyniadau mewn termau lleol a sicrhau cyfle cyfartal o fewn yr adnoddau tra ar yr un pryd yn ymateb i anghenion lleol.

  **Cytunwyd i nodi'r sefyllfa.**

  **Dim camau gweithredu pellach yn codi.**

- Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru – Parhad a Newid: ailfywiogi'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru.

  Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn bod y ddogfen uchod yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer ymgynghori ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Sector Gwirfoddol. Roedd Bwrdd Rheoli Medrwn Môn eisoes wedi cyfarfod i ffurfio ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn rhannol oherwydd y pwysau ar gyllid cyhoeddus ac oherwydd y symudiad tuag at agwedd ranbarthol i ddarparu gwasanaeth. Pwysleisiodd Prif Swyddog Medrwn Môn bod y dimensiwn lleol yn gorwedd wrth galon gweithgareddau'r sector gwirfoddol ac roedd hyrwyddo gweithgareddau lleol o'r fath yn un o gryfderau Medrwn Môn. Fodd bynnag, os bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i waethygu, efallai y byddai'n rhaid ystyried trefniadau eraill e.e. gweithio ar lefel fwy rhanbarthol. Mae yna hefyd botensial y bydd y sector yn colli cyllid oherwydd sefydlu ffurfiau eraill o gefnogaeth e.e. proses fidio i Gronfa Arloesol. Dywedodd y Swyddog y byddai o gymorth pe bai'r Cyngor Sir yn darparu ymateb i'r ddogfen ymgynghori yn ogystal. Eglurodd bod y pryderon a gynhyrchwyd gan y ddogfen yn ymwneud â llacio'r cysylltiadau lleol a'r risg y bydd gwthio'r trefniadau

DRAFT

rhanbarthol yn golygu bydd y ffocws ar weithgareddau ac anghenion lleol yn cael ei golli.

Nodwyd mai'r amser cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 8 Awst ac felly dim ond cyfle cyfnod byr iawn sydd ar gael i'r Pwyllgor Cyswllt gasglu ei safbwyntiau at ei gilydd a'u cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned wrth Aelodau'r Pwyllgor mai hi oedd y Swyddog Arweiniol dynodedig ar y mater hwn yn y Cyngor ac y byddai felly yn cydlynu'r ymateb iddo.

Cytunwyd - pe bai angen, y dylid cynnull grŵp cynrychioladol bychan o'r Pwyllgor ar fyr rybudd fel y gallai safbwynt y fforwm hwn gael ei adlewyrchu yn ymateb yr Awdurdod Lleol i'r ddogfen Ymgynghori.

**Cytunwyd i nodi'r ddogfen Ymgynghori.**

**Camau Gweithredu'n Codi: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i gysylltu gyda Phrif Swyddog Medrwn Môn fel bo'r angen i wneud trefniadau priodol ar gyfer cael safbwyntiau'r Pwyllgor yng nghyswllt y ddogfen Ymgynghori Parhad a Newid a'i gynnwys yn ymateb y Cyngor Sir.**

**8 LLAIS Y GYMUNED**

Cafwyd cyflwyniad gan Ms Lyndsey Williams, Rheolwraig Prosiect Medrwn Môn a hefyd amlinelliad o Brosiect Lleisiau Lleol Gwrandwch, a chyfeiriodd at yr agweddau canlynol o'r prosiect –

- prosiect cyllid Loteri £1 miliwn yn rhedeg hyd 2017
- Un o ddim ond 2 o brosiectau llwyddiannus yng Ngogledd Cymru
- Rheoli a gweinyddu gan Medrwn Môn
- 9 o brosiectau portffolio yn rhedeg ar draws Ynys Môn
- Yn gweithio yn y cymunedau anoddaf eu cyrraedd

Aeth y Rheolwr Prosiect ymlaen i egluro'r deilliannau portffolio a gynlluniwyd a darpariaeth a'r modd y mae'r prosiect yn ffitio'n strategol i gynlluniau'r Cyngor a'i strategaethau yn ogystal â sut y gallai fod o fantais i'r Pwyllgor Cyswllt drwy nodi themâu cyffredin. Dywedodd y Swyddog mai yn y cyfnod cynnar mae'r prosiect ar hyn o bryd gyda'r gwaith cychwynnol yn golygu creu gwybodaeth waelodlin wedi ei chasglu o'r 9 prosiect portffolio gyda golwg ar sefydlu'r sefyllfa bresennol ynglŷn ag ymgysylltiad cymunedol gyda gwasanaethau cyhoeddus.

Aeth y Swyddog Gwneud y Cysylltiadau ymlaen i ddweud bod y Prosiect Lleisiau Lleol yn darparu cyfle gwych i weithio o fewn cymunedau a chyda darparwr gwasanaeth ac i adeiladu darlun o bwy yw'r defnyddwyr gwasanaeth a dod a hwy yn agosach at y rhai sy'n gwneud y ddarpariaeth.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, ystyriwyd sut y gallai'r prosiect a'r wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth a'u proffil asio gyda gwaith byrddau prosiect y Cyngor a hynny er lles y ddwy ffrwd waith. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn adborth rheolaidd ar y Prosiect Lleisiau Lleol ac awgrymwyd hefyd y gellid rhoi cyflwyniad ar y prosiect i Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor yn yr hydref.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a diolch i Ms Lindsay Williams am y cyflwyniad.**

**Camau Gweithredu'n Codi:**

- **Diweddariad ar y Prosiect Lleisiau Lleol Gwrandwch i fod yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor Cyswllt.**
- **Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) a'r Cyfarwyddwr Cymuned i ymgysylltu ynglŷn ag ymarferoldeb trefnu cyflwyniad i Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor ar y Prosiect Lleisiau Lleol Gwrandwch.**

**9** **TREFNIADAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF**

Ystyriwyd trefniadau ar gyfer gweithdy yn yr hydref i lunio rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor Cyswllt.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mai'r amcan yw datblygu rhaglen waith o amgylch dyheadau'r Pwyllgor a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni ym mhob cyfarfod ac y byddai'n cysylltu gyda Phrif Swyddog Medrwn Môn a'r Cyfarwyddwr Cymuned er mwyn trefnu gweithdy.

Gan gyfeirio at gyfarfod nesaf y Pwyllgor oedd wedi ei drefnu ar gyfer 3 Hydref, 2013, trafodwyd y manteision a'r anfanteision o fynd a chyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyswllt allan i'r gymuned ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai'r arfer hwn barhau.

**Cytunwyd –**

- **Y byddai gweithdy'n cael ei gynnal yn yr hydref ar y llinellau a awgrymwyd.**
- **Y dylai'r Pwyllgor Cyswllt barhau i gyfarfod mewn lleoliadau o fewn gwahanol gymunedau ar draws Ynys Môn.**
- **Bod y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 3 Hydref, 2013 yn cael ei gynnal yn Talwrn.**

**Camau Gweithredu'n Codi: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i gysylltu gyda Phrif Swyddog Medrwn Môn a'r Cyfarwyddwr Cymuned i wneud trefniadau ar gyfer gweithdy yn yr Hydref.**

*Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned wrth Aelodau'r Pwyllgor Cyswllt bod prosiect Ynys Môn i ddatblygu Canolfannau Cymuned Heneiddio'n Dda i bobl hŷn wedi ennill Gwobr Gofal Cymdeithasol am 2013.*

**Mr Islwyn Humphreys**
**Cadeirydd**

DRAFT

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Cyffredinol • Prif Weithredwr, GIG Cymru

Department for Health and Social Services
Cyfarwyddwr Cyffredinol • Prif Weithredwr, GIG Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr BILl
Aelodau Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol/Arweinwyr Cynghorau
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cadeirydd a Phrif Weithredwr CGGC
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru
Cadeirydd Plant yng Nghymru
Cydffederasiwn GIG Cymru

**23 Gorffennaf 2013**

**Pwnc: Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth**

Annwyl Gyfeillion

Amgaeaf Ddatganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cyhoeddi ymgynghoriad ar Fframwaith ar gyfer Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth.

Mae'r Fframwaith wedi'i lunio ar sail gynhwysol gyda chyfraniadau gan y GIG, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector. Croesawn eich sylwadau.

Da o beth fyddai cael eich sylwadau a'ch safbwyntiau ar y Fframwaith erbyn **diwedd mis Hydref 2013**. Byddem yn falch o'u cael gan sefydliadau unigol a chan bartneriaethau perthnasol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod hyn ymhellach cysylltwch ag Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru – Albert.Heaney@Wales.gsi.gov.uk 02920823219.

Yn gywir

**David Sissling**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 801182/1144
david.sissling@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Integreiddio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth** |
| **DYDDIAD** | **19 Gorffennaf 2013** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Mae’n newyddion gwych bod pobl yng Nghymru yn byw bywydau hirach a mwy iach nag erioed o'r blaen. O ganlyniad, rydyn ni'n gwybod bod galw cynyddol am wasanaethau acíwt a gofal cymunedol ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig y rheini sy'n 85 oed ac yn hŷn. Mae eiddilwch, dementia ac effeithiau cyflyrau cronig yn fwy amlwg yn y grŵp poblogaeth hwn nawr ac yn y dyfodol, a hynny mewn cyfnod lle mae adnoddau’n dynnach nag erioed o’r blaen. Gyda'r heriau hyn i’n system ofal a'r angen i wella ansawdd yn barhaus, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud mwy yn gynt i integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn llawn. Rydyn ni felly'n lansio ymgynghoriad ar Fframwaith newydd ar gyfer Integreiddio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn a fydd yn cynnig cyfeiriad a chymhelliant newydd i fynd i'r afael â'r pwysau hyn, ochr yn ochr ag ymdrechu i wella ansawdd gwasanaethau.

Mae'n bwysig bod gennym ddiffiniad clir o ystyr integreiddio. Mae hefyd yn rhaid i ni gydnabod o'r hyn nad yw'n cyfrif fel integreiddio. Nid oes rhaid i hyn olygu diwygio strwythurol, er enghraifft drwy uno gwasanaethau cymdeithasol â'r GIG. Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn datgan yn glir mai gweithgarwch craidd ar gyfer llywodraeth leol yw gwasanaethau cymdeithasol. Mae i’r term ‘integreiddio’ nifer o ddiffiniadau sy’n adlewyrchu’r sbectrwm o lefelau lle gall integreiddio ddigwydd. Mae integreiddio i’r gwrthwyneb o ymwahanu. I bobl sydd angen gofal a chymorth, dylai olygu: ‘Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio i fi gyda phobl yn cydweithio i fy neall i, fy nheulu a gofalw(y)r, yn rhoi rheolaeth i mi, ac yn tynnu gwasanaethau ynghyd i gyflawni’r canlyniadau sy’n bwysig i mi.’

Mae hefyd angen i ni fod yn glir am y manteision rydyn ni'n eu disgwyl yn sgil integreiddio. Dros gyfnod, bydd hyn yn gwella cysondeb canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn symud canolbwynt gofal i'r cartref ac i ffwrdd o'r ysbyty. Bydd hyn yn sicrhau bod asesu aml-ddisgyblaethol da yn dod yn safonol. Bydd llai o dderbyniadau amhriodol mewn ysbytai a throsglwyddiadau gofal cartref diangen. Bydd rôl y meddyg teulu yn fwy canolog. Bydd ymyrraeth gynnar, ailalluogi a gofal canolraddol yn cael eu hymgorffori mewn un system. Bydd urddas a phreifatrwydd yn cael eu hamddiffyn.

Mae nifer o ofynion hanfodol sydd yn ein barn ni yn angenrheidiol ar gyfer integreiddio llwyddiannus y bydd angen eu rhoi ar waith i fodloni amgylchiadau lleol ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Set o fesurau canlyniadau ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol – gan ddechrau gyda phobl hŷn ag anghenion cymhleth – y gall pawb gydnabod sy'n briodol, yn uchelgeisiol ac yn gyraeddadwy.

- Gwasanaethau sy'n seiliedig ar yr egwyddor a'r arfer o roi llais a rheolaeth o ran darparu gofal i'r claf/defnyddiwr gwasanaeth a'u gofalwr mewn ffordd ystyrlon;

- Arweinyddiaeth gref ar y cyd ar y lefel uchaf mewn cynghorau a Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid allweddol, gyda threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol.

- Systemau sy'n caniatáu amddiffyn a rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol fel nad yw rhannu gwybodaeth yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n atal integreiddio.

- Llawer mwy o ddefnydd o drefniadau partneriaeth ffurfiol a chyllidebau cyfun. Gan adeiladu ar ein buddsoddiad cychwynnol, bydd angen i gynghorau a Byrddau Iechyd Lleol ddod o hyd i gyllid pontio. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn am weld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn rhannu adnoddau. Rydyn ni'n disgwyl i bob Bwrdd Iechyd Lleol a chyngor perthnasol bennu targed penodol y cytunir arno'n lleol ar gyfer cyfran yr adnoddau pobl hŷn sy'n cael eu hymrwymo i gyllideb gyfun.

- Pwyslais o'r newydd ar sefydlu timau ar y cyd ar lefelau rhanbarthol a lleol ynghylch gwasanaethau, gyda chyd-reolwr ar lefel uwch yn llywio newid. Mae'n rhaid goresgyn y rhwystrau canfyddiadol a ddaw yn sgil y telerau ac amodau cyflogaeth gwahanol.

- Gwella gofal integredig drwy reolwyr cydgysylltu gofal, gan ddefnyddio cynllunio gofal integredig a thîm ag ystod o sgiliau a rolau. Dylid datblygu ymhellach y cysyniad o hyrwyddwyr clinigol a gwasanaeth.

- Yn olaf, mae angen syniad clir o ddiben a chyfeiriad ar draws pob rhanbarth ac ardal leol. Nid ateb brys yw hwn, ond mae'n rhaid i ni symud ymlaen gyda'r momentwm cynnar. Bydd angen i bob cyngor a

Bwrdd Iechyd Lleol cysylltiedig lofnodi Datganiadau o Fwriad ar gyfer integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth erbyn diwedd Ionawr 2014.

Nid cychwyn o'r cychwyn y mae'r cymhelliant hwn ar gyfer integreiddio. Gan adeiladu ar fuddsoddiad sylweddol yn y Grant ar gyfer Cydweithio ac ar gyllid datblygu gofal parhaus, mae gwaith pellach eisoes yn mynd rhagddo ledled Cymru. Mae hyn yn ymwneud ag eiddilwch yn bennaf, er enghraifft Rhaglen Eiddilwch Gwent, 'Rhith Ward' Hywel Dda, a'r Ymgyrch Wyn sy'n cael eu datblygu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, oll â chyllid Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â Model Arloesi Bhowmick yn Ynys Môn. Rydyn ni'n darparu cyllid o £143,000 dros 2 flynedd ar gyfer Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth gyda'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Gwyddoniaeth a Phrifysgol Abertawe a fydd yn datblygu'r dulliau ar gyfer asesu ansawdd a chostau gwasanaethau pobl hŷn integredig.

Mae'n rhaid i'r broses datblygu a gweithredu adeiladu ar y profiad a'r gwersi o'r safleoedd arloesi cynnar hyn a'r arfer da, er enghraifft ym maes anableddau dysgu iechyd meddwl. Yn arbennig, rydyn ni yng Nghymru wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu cymorth integredig ar gyfer teuluoedd ag anghenion cymhleth ar sylfaen statudol. Mae'n rhaid i ni adeiladu ar yr egwyddorion a oedd yn hanfodol o ran gwneud y dull hwn yn llwyddiant. Bydd angen i'r cam datblygu nesaf fynd â'r gwersi hyn i'r lefel nesaf, a sicrhau bod modelau gwasanaeth newydd yn rhan o wasanaethau prif ffrwd ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth ym mhob cwr o Gymru. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol wedi cefnogi nifer o geisiadau gan wasanaethau cymdeithasol gyda phartneriaid y GIG ar gyfer adnoddau o dan y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, a fydd yn cynnig cyfleoedd i wneud cynnydd cynnar ar yr agenda integreiddio hwn a sicrhau synergedd pwysig o fewn a rhwng llywodraeth leol.

Nid yw’r fframwaith hwn yn rhywbeth annibynnol, ond yn hytrach mae’n ategu ystod o waith arall sy’n cael ei wneud eisoes. Mae partneriaeth Llywodraeth Cymru gyda llywodraeth leol, y GIG, trydydd sector a’r sector annibynnol wedi bod yn effeithiol a chynhyrchiol iawn o ran datblygu Fframwaith Gwasanaethau Integredig ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth. Mae'r fframwaith rydyn ni'n ei gyhoeddi heddiw yn amlinellu'n disgwyliadau o ran maint, cwmpas a chyflymder newid i sicrhau gwasanaethau integredig ledled Cymru.

Mae'n rhaid i ni gyfeirio adnoddau fwyfwy at y gymuned a meithrin capasiti i alluogi pobl i aros gartref mor annibynnol â phosibl. Mae rôl gofal sylfaenol o ran sicrhau integreiddio effeithiol, yn rôl arbennig y meddyg teulu, yn ganolog i'r nod hwn. Rydyn ni wedi datblygu Cynllun Darparu Gofal Iechyd Lleol cysylltiedig i sicrhau integreiddio effeithiol ar draws gofal acíwt a sylfaenol gyda llywodraeth leol, a lansiwyd ar 25 Mehefin.

Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cryfhau'r trefniadau partneriaeth i awdurdodau lleol a'r GIG weithio gyda'i gilydd. Mae darpariaethau penodol yn y Bil (Adran 147) a fydd yn galluogi Gweinidogion

Cymru i wneud Rheoliadau sy'n nodi math a ffurf y bartneriaeth dan arweiniad gwasanaethau, yn ogystal ag ystod o drefniadau gweithredol a rheoli ategol. Mae'r rhain yn bwerau sylweddol a fydd yn sicrhau mwy o gysondeb os na chaiff hyn ei gyflawni yn y blynyddoedd nesaf drwy gydweithredu.

Byddwn yn adrodd yn rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd o ran rhoi'r rhaglen newid bwysig hon ar waith.

Rhif: **WG19385**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori ymatebion

# Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig

ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleths

Dyddiad cyhoeddi: **22 Gorffennaf 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **31 Hydref 2013**

## Trosolwg

Mae tueddiadau demograffig ac eraill yng Nghymru'n golygu bod galw cynyddol am wasanaethau gofal acíwt ac yn y gymuned i bobl hŷn, yn arbennig i rai sy'n 85 oed neu hŷn. Mae eiddilwch, dementia ac effeithiau cyflyrau cronig lluosog yn fwy amlwg yn y grŵp hwn o'r boblogaeth. Gan adeiladu ar fuddsoddi mewn gweithio ar y cyd dros y deng mlynedd a mwy diwethaf, mae Gweinidogion yn credu bod angen ymateb newydd, cadarn wedi ei flaenoriaethu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn ag anghenion cymhleth.

Mae tasglu o'r GIG, y Trydydd Sector ac arweinwyr gofal cymdeithasol awdurdodau lleol wedi bod yn cynghori ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Fframwaith, a hefyd yn ystyried opsiynau i helpu ei gyflwyno a'i weithredu. Yn ystod y cam hwn, byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar y Fframwaith Integreiddio arfaethedig.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal trafodaethau pellach ar lefel genedlaethol a rhanbarthol i ddylanwadu ar y ffordd y mae integreiddio yng Nghymru'n cael ei ddatblygu. Bydd y trafodaethau'n cael eu cynnal i ddechrau trwy gyfarfodydd rhwng y Gweinidog Iechyd a Chadeiryddion LAB a Fforwm Partneriaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol y Dirprwy Weinidog sy'n cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol o lywodraeth leol. Hefyd bydd angen i'r Tasglu aml-randdeiliaid dan arweiniad Llywodraeth Cymru fod â rôl gydlynu barhaus wrth helpu i ddatblygu a gweithredu'r Fframwaith.

Mae Gweinidogion yn awyddus i roi blaenoriaeth a sicrhau momentwm i'r Fframwaith a rhoi cyfle i bartneriaid gynllunio ar gyfer gweithredu gwasanaethau integredig yn ystod 2013-14 cyn eu gweithredu'n llawn o Ebrill 2014. Mae Gweinidogion yn awyddus i bob bwrdd iechyd lleol a phartneriaeth llywodraeth leol, ar sail model gwasanaethau cyhoeddus, ddatblygu Datganiad o Fwriad ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyflwyno'r rhain erbyn diwedd Ionawr 2014 i'w hystyried.

Felly, byddai o gymorth derbyn eich safbwyntiau a'ch sylwadau cychwynnol ar y Fframwaith a'r ffordd ymlaen erbyn diwedd Hydref 2013. Byddem yn croesawu ymatebion a rennir ar draws grwpiau partneriaeth yn unol â dewisiadau y cytunir arnynt yn lleol.

## Sut i ymateb

A fyddech cystal ag ymateb drwy e-bost neu ar ffurf copi caled

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost:FrameworkIntegratedServicesOlderPeople
ComplexNeeds@wales.gsi.gov.uk

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill**

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost:FrameworkIntegratedServicesOlderPeople
ComplexNeeds@wales.gsi.gov.uk

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.


© Hawlfraint y Goron 2013

# Cynnwys

**Rhagair ar y Cyd**

**1. Trosolwg a Chyd-destun Strategol**

**2. Yr Achos dros Newid**

**3. Beth ydym eisiau ei gyflawni?**

**4. Gwneud iddo ddigwydd**

**5. Mesur Llwyddiant**

**6. Y camau nesaf**

**Atodiad A – Matrics Aeddfedrwydd**

## Rhagair ar y Cyd

## Mark Drakeford AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
## Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'n newyddion rhagorol fod pobl yng Nghymru'n byw bywydau hirach ac iachach nag erioed o'r blaen. Nawr mae angen i ni sicrhau bod ein gwasanaethau'n addasu i helpu pobl o bob oed i fwynhau eu bywydau i'r eithaf yn unol â'r ymrwymiad yn ein *Rhaglen Lywodraethu* i *'ddatblygu gwasanaethau safonol, integredig, cynaliadwy, diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar bobl, gan feithrin eu cryfderau a hyrwyddo eu lles'.*

Rydym yn gwybod y bydd mwy o alw yn y dyfodol am wasanaethau gofal i bobl hŷn, yn arbennig i rai sy'n 85 oed neu'n hŷn. Mae *Law yn Llaw at Iechyd* yn amlinellu ein huchelgais i gael gwasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n cael eu darparu mor agos â phosibl i'w cartrefi. Mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy* yn rhagweld gwasanaeth gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar asesiadau trosglwyddadwy ac sy'n galluogi i bobl wneud penderfyniadau gwybodus, gyda chynllunio a chymhwysedd gofal mwy cyson. Bydd *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* yn cryfhau'n sylweddol y gofynion deddfwriaethol ar gyfer Byrddau Iechyd a Llywodraeth Leol i integreiddio gwasanaethau.

Nod ein polisi yw gwella gwasanaethau presennol a datblygu dewis ehangach o wasanaethau ataliol sy'n gallu helpu pobl o bob oed i reoli eu bywydau eu hunain gartref ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty neu ofal preswyl cyn belled â phosibl.

Un elfen greiddiol o'r fframwaith hwn yw rhoi diwedd ar ofal tameidiog sy'n gwneud darparwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal yn ddryslyd a rhwystredig. Mae gofal tameidiog yn wastraff o adnoddau, ymdrech a chyfleoedd. Mae'r ddogfen yn nodi'r gofynion hanfodol y mae'n rhaid eu sefydlu, yn ein barn ni, fel y model safonol trwy Gymru. Ar hyn o bryd nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau strwythurol i gyflawni hyn, ond rhaid cael newid.

Mae'n ategu'r fframwaith ar gyfer datblygu gwasanaethau cymunedol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2013, *Darparu Gofal Iechyd Lleol: Sbarduno Newid.* Dylid gweithredu'r ddau trwy un broses weithredu gyflym, integredig, yn cynnwys byrddau iechyd lleol, llywodraeth leol a'u partneriaid yn y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Datblygwyd y Fframwaith hwn gyda'r GIG, Llywodraeth Leol, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Trydydd Sector, ac mae eraill fel Fforwm Gofal Cymru wedi dangos eu cefnogaeth i'r dull hwn. Rydym yn annog yr holl fuddiannau i wneud yr un fath i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i bobl hŷn yng Nghymru. Yr arfer hwn o 'gyd-gynhyrchu' yr ydym yn awyddus i'w weld wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ac estyn allan i gynnwys y rhai sy'n derbyn y gwasanaethau.

Rydym yn ei argymell y fframwaith hwn a gofynnwn i chi roi eich barn a'ch sylwadau arno.

# 1. Trosolwg a Chyd-destun

Mae gan Gymru eisoes ganran uwch o bobl dros 85 oed na gwledydd eraill y Deyrnas Unedig ac mae'n debygol o gynyddu yn y ddegawd nesaf. Os yw gwasanaethau am helpu pobl hŷn i gael bywyd hapus, annibynnol, rhaid gweithredu nawr i sicrhau bod y gwasanaethau priodol yn eu lle, yn arbennig yng ngoleuni'r heriau ariannol presennol. Ni fydd gwasanaethau tameidiog neu annibynadwy neu sy'n tanseilio gallu pobl i fyw ble a sut y bydden nhw'n hoffi, yn gwneud defnydd da o adnoddau sy'n gynyddol brin nac yn diwallu anghenion pobl y mae angen cymorth arnynt.

Mae angen patrwm newydd o wasanaethau, gan adeiladu ar, addasu a datblygu'r sylfeini da sydd eisoes yn eu lle. Gan gydnabod y dystiolaeth gynyddol sy'n dangos manteision integreiddio, mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut bydd uchelgais Llywodraeth Cymru i gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wirioneddol integredig i bobl hŷn yn cael ei gweithredu. Mae disgwyl i bartneriaid trwy Gymru nawr symud ymlaen yn gyflym i sicrhau mai'r model hon yw'r norm. Mae angen newid sylweddol dros y tair blynedd nesaf.

Mae mwy nag un diffiniad o'r term 'integreiddio' sy'n adlewyrchu'r sbectrwm o lefelau lle mae integreiddio'n bosibl. Integreiddio yw'r gwrthwyneb i dameidiogrwydd. O ran pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt dylai olygu:

> 'Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i gyda phobl yn cydweithio i'm deall i, fy nheulu a'm gofalwr(wyr), gan roi rheolaeth i mi, a dod â gwasanaethau ynghyd i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i mi.'

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r gofal a ddarperir gael ei anelu at sicrhau gwell gofal i ddefnyddwyr a chleifion trwy gydlynu gwasanaethau'n well. Mae integreiddio'n galw am set o ddulliau, modelau a phrosesau sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio gwella cydlynu.

Dyma'r elfennau hanfodol:

- bod darparwyr gwasanaeth yn chwalu'r rhwystrau sydd wedi atal cydweithio effeithiol ac yn llunio'r gwasanaeth ar sail dealltwriaeth gyffredin o'r canlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn
- bydd gan y sawl sy'n derbyn gwasanaeth fwy o lais a mwy o reolaeth dros y gofal y mae'n ei dderbyn.

Mae'r fframwaith hwn yn:

- crynhoi'r polisi perthnasol a'r prif egwyddorion;
- darparu diffiniadau clir;
- amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sut mae angen i'r holl wahanol bartneriaid fynd ati ar fyrder i ddatblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, nid fel rhywbeth ychwanegol ond fel y ffordd arferol o weithio;
- nodi beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos fel y gofynion craidd y dylid eu defnyddio fel sail i gynllunio a darparu'n lleol; ac yn
- datgan y dangosyddion sy'n seiliedig ar ganlyniadau a fydd yn helpu i sefydlu'r waelodlin bresennol a mesur cynnydd.

Rhagwelir y bydd y dull hwn yn sicrhau bod canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn well ac yn fwy cyson, ac y bydd yn cryfhau gofal yn y gymuned. Bydd asesiadau amlddisgyblaethol da yn dod yn arfer safonol, bydd rôl Meddygon Teulu'n fwy canolog, a bydd ymyrraeth gynnar, ail-alluogi a gofal canolraddol yn rhan o system gydlynol sengl. Bydd urddas a phreifatrwydd yn cael eu diogelu.

Tra ei bod yn cymryd amser i gyflawni hyn, mae arfer da eisoes ar waith y mae'n rhaid i ni adeiladu arno. Enghreifftiau o hyn yw'r ardaloedd sydd wedi arloesi gyda gwasanaethau eiddilwch, timau ardal ar y cyd a thimau adnoddau cymunedol, ac mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Hefyd bu cynnydd cadarn mewn creu cymorth integredig ar gyfer teuluoedd ag anghenion cymhleth. Bydd yr egwyddorion a ddefnyddiwyd yma a'r gwersi a ddysgwyd yn hanfodol i gefnogi cynnydd cyflym.

## 2. Yr Achos dros Newid

Mae pobl yng Nghymru'n byw bywydau hirach ac iachach nag erioed o'r blaen, a rhaid i wasanaethau ateb y galw i ddiwallu eu hanghenion. Yng Nghymru y mae'r gyfradd twf uchaf yng ngwledydd y Deyrnas Unedig o bobl 85 oed neu hŷn - erbyn 2030 bydd pobl sy'n 85 oed neu'n hŷn yn cynyddu 90%, i 85,000.

Mae gan bobl hŷn lefelau uwch o eiddilwch, dementia a chyflyrau cronig, yn aml bydd ganddynt gyfuniad ohonynt - eisoes mae mwy na 42,000 o bobl yn dioddef o ddementia yng Nghymru, sy'n effeithio ar ddwy ran o dair o bobl hŷn mewn gofal preswyl, ac erbyn 2021 rhagwelir y bydd y nifer yn codi 30% a chymaint â 44% mewn rhai ardaloedd gwledig.

Bydd hyn yn symbylu galw cynyddol am wasanaethau. Bydd raid i wasanaethau cymunedol a gofal cartref ehangu ar adeg pan nad oes sicrwydd mwyach ynglŷn â chynnydd mewn adnoddau termau real i fodloni'r galw cynyddol hwn.

Mae ymchwil a thystiolaeth anecdotaidd fod gwasanaethau'n dameidiog, o fewn ac ar draws ffiniau sefydliadau a sectorau. Fel eraill, bydd pobl hŷn yn awyddus i gael rheolaeth dros eu bywydau eu hunain a pharhau i fod yn rhan o'u cymuned, a chyfrannu ati. Mae hyn yn awgrymu y dylai gwasanaethau gynnig cymorth cydlynol, graddol i'w helpu i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain am gyhyd â phosibl. Mae tystiolaeth yn dangos sut y mae tarfu ar drefniadau byw arferol pobl hŷn yn gallu tanseilio'n gyflym iawn eu hyder a'u gallu, hyd yn oed i'r graddau fel ei bod yn amhosibl iddynt fyw'n annibynnol fel o'r blaen.

Mae'n amlwg mai'r model y mae pobl hŷn eisiau ac angen ei gael yw gwasanaethau cwbl gydlynol yn y gymuned sydd yn cynnig cymorth ac yn rhoi llais iddynt yn ogystal â chyfle i gadw rheolaeth dros eu bywydau. Gwasanaethau cydlynol sy'n gweithio fel un yw'r ffordd orau i gyflawni hynny.

Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â dymuniad pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Maent yn cydnabod yr angen i rymuso pobl hŷn,

ac yn croesawu modelau gofal a chymorth sy'n parchu ymdeimlad ehangach pobl o les personol a chymuned gref.

Felly, mae newid ffocws gwasanaethau yn faes blaenoriaeth uchel. Mae modelau integredig yn gallu diwallu anghenion pobl hŷn yn well. Gallant hefyd helpu i roi sylw i'r galw cynyddol am ofal a chymorth nawr ac yn y dyfodol. Nid yw peidio â newid yn opsiwn. Mae angen gweithredu ar frys.

Mae modd sicrhau newid. Eisoes mae nifer o enghreifftiau trwy Gymru o weithio integredig da yn cynnwys: cyfrifoldeb un asiantaeth am wasanaethau iechyd meddwl penodol, gwasanaethau plant integredig - Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Theuluoedd yn Gyntaf, gwasanaethau integredig i ryddhau cleifion o ysbytai, gwasanaethau ail-alluogi ac adsefydlu ar y cyd a storfeydd offer ar y cyd. Mae cyllid 'Buddsoddi i Arbed' Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi modelau gwasanaethau eiddilwch trwy rannau helaeth o Gymru. Ar sail barhaus, mae'r broses Buddsoddi i Arbed, y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol a Bond Lles Cymru CGGC yn rhoi mynediad i bartneriaid at adnoddau i helpu i ddatblygu ymhellach.

Mae cynnydd pellach yn hanfodol, a hynny ar fyrder. Rhaid i'r BILI a Chynghorau cysylltiedig gynllunio cynnydd blynyddol mewn cyllidebau ac adnoddau a rennir a gosod targed y cytunir arno'n lleol ar gyfer canran yr adnoddau sy'n berthnasol i bobl hŷn sydd wedi eu hymrwymo i gyllideb sydd wedi ei chronni. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu nawr - mae Cronfa'r Brenin yn disgrifio'r sefyllfa bresennol fel 'llwyfan ar dân', heb ddewis arall ond i wthio graddfa a chyflymdra'r broses o brif ffrydio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

## 3. Beth ydym eisiau ei gyflawni?

Mae cydnabod bod newid yn hanfodol yn rhoi cyfle i greu system newydd sy'n wirioneddol integredig. Dylid sicrhau bod gan y system ddwy brif nodwedd.

1. Dylai fod yn system wedi ei chynllunio a'i rheoli'n gydwybodol, wedi ei hadeiladu ar uchelgais. Gan weithio'n agos gyda'i gilydd i leihau rhwystrau rhyngddynt, bydd angen i bartneriaid lleol newid ffocws eu gweithgareddau, a'u seilio ar y rhai sy'n derbyn gofal. Er mwyn sicrhau hyn bydd angen rhoi sylw i:

    - ymyriadau ataliol sy'n atal llithro heb fod ei angen i ddibynnu'n gynyddol ar wasanaethau;
    - lleoli a chysylltu gwasanaethau mewn lleoliadau yn y gymuned gan drosglwyddo'n llyfn rhwng gwahanol elfennau ac i wasanaethau mwy arbenigol;
    - creu llwybrau atgyfeirio cwbl integredig sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaethu i groesi ffiniau sefydliadau a sectorau'n hawdd heb unrhyw niwed neu golled;
    - cael yr wybodaeth am y defnyddiwr gwasanaeth unwaith, a rhoi sylw i'w holl anghenion

- set gytbwys o wasanaethau sy'n gweithredu lle y bo angen 24 awr y dydd, gan integreiddio gwasanaethau ymyrraeth gynnar, cefnogi byw'n annibynnol, adsefydlu ac ail-alluogi, gofal canolradd, gofal diwedd oes a llwybrau at wasanaethau arbenigol a gwasanaeth a ddefnyddir yn llai aml;

- bod pob rhan o ofal eilaidd yn ymwneud â'i gilydd yn llawn gan ganolbwyntio'n arbennig ar y pwyntiau hynny o'r llwybr lle mae'r risg mwyaf o danseilio annibyniaeth;

- galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fod yn rhan o ddatblygu eu cynllun gofal, gydag un pwynt cyswllt a enwir, a mynegi eu barn ynglŷn â sut y caiff y gofal ei ddarparu;

- galluogi gofalwyr i fod yn rhan o ddatblygu'r cynllun gofal, cael asesiad o'u hanghenion cefnogi, cael mynediad at wybodaeth berthnasol, gyfredol wedi ei thargedu ym mhob cam a mynegi eu barn ynglŷn â sut y caiff y gofal ei ddarparu;

- symbylu gweithredu ar y cyd os ymddengys bod gofalwyr ifanc mewn risg neu 'blentyn mewn angen' oherwydd eu rôl gofalu

2. Dylid ei hadeiladu gyda ac ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned leol. Ni ddylid cynllunio a chynnal gwasanaethau heb gyfeirio at y bobl y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r diffiniad o integreiddio yn Adran 2 yn canolbwyntio ar brofiad y sawl sy'n derbyn gwasanaethau.

   Felly, rhaid cael ymrwymiad cryf i ddatblygu gwasanaethau er mwyn rhoi mwy o lais i'r defnyddwyr a'r gymuned. Dylai hyn anelu at gefnogi a hwyluso lles y gymuned yn yr ystyr ehangach a hefyd annog a helpu unigolion a chymunedau i gymryd mwy o gyfrifoldeb a rheolaeth drostynt eu hunain.

   Dylai gwasanaethau gydnabod bod cymunedau ac unigolion eu hunain yn asedau. Gyda'i gilydd gall darparwyr gwasanaeth a'r rhai sy'n derbyn gofal helpu i greu gwasanaeth mwy effeithiol. Mae gweithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant ac mae ganddynt brofiad a sgiliau penodol, ond y sawl sy'n derbyn gofal sy'n gwybod orau beth yw ei (h)anghenion, dewisiadau a'i sefyllfa ef neu hi. Mae angen i gynllunwyr ac eraill adeiladu ar y potensial hwn i 'gyd-gynhyrchu''r gwasanaeth gorau a'r canlyniadau gorau.

   Gall yr un syniad o gyd-gynhyrchu fod yn berthnasol i ddatblygu cymunedau mwy iach a lleihau dibyniaeth. Gall dull cwbl integredig hefyd adeiladu ar gamau sy'n canolbwyntio ar y gymuned fel:

   - cynlluniau penodol i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol;
   - annog gwirfoddoli, yn cynnwys bancio amser;
   - gweithio ar 'arian cymunedol' sydd nid yn unig yn cryfhau gwytnwch cymdeithasol cymunedau, ond hefyd economïau lleol;
   - datblygu modelau mentrau cymdeithasol.

3. Rhaid sicrhau bod ymrwymiad gwirioneddol i fonitro a gwella'n gyson. Mae symud yn benodol i ddull mwy integredig yn golygu nad yw cyfrifoldebau

weithiau mor eglur. Bydd angen i'r partneriaid weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod trefniadau llywodraethu diogel a chlir ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau, rhannu adnoddau, ac atebolrwydd yn ei sgil. Rhaid rhoi sylw gofalus i adolygu ansawdd a chanlyniadau, ac mae hynny hyd yn oed yn bwysicach pan mae gwasanaethau'n wynebu newid.

## 4. Gwneud iddo ddigwydd

Wrth wneud y newidiadau angenrheidiol, gwnaed penderfyniad i beidio â newid strwythurau ar hyn o bryd, ond rhaid sicrhau newid. Felly mae angen i gyrff lleol ddatblygu trwy ddilyn llwybr sydd wedi ei ddiffinio'n glir, gan gysylltu eu camau yn ystod pob cam â'r rhai sy'n cael eu darparu'r un pryd mewn ymateb i *Darparu Gofal Iechyd Lleol.*

Wrth wneud hyn dylent fanteisio ar yr holl dystiolaeth sy'n awgrymu, er bod nifer o ffyrdd o integreiddio gofal, bod yn rhaid i'r prif egwyddorion fod yn gyson. Mae Cronfa'r Brenin[1] wedi crynhoi'r rhain yn hwylus, ac ar sail eu gwaith nodir un ar bymtheg o ofynion yn y blwch isod y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu a phrif ffrydio gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn yn ystod y tair blynedd nesaf.

**Y gofynion cynllunio craidd**

Bod yn eglur ynghylch:

1: ein hachos cyffredin – pam ein bod yn gwneud hyn
2: naratif a rennir – pam fod gofal integredig yn bwysig
3: ein gweledigaeth gref – beth y bydd yn ei gyflawni
4: arweinyddiaeth a rennir – sut ydym am wneud hyn
5: sut i greu gwir bartneriaeth
6: pa wasanaethau a grwpiau defnyddwyr sy'n cynnig y manteision mwyaf
7: sut i adeiladu o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr
8: sut i gronni adnoddau
9: sut i ddefnyddio comisiynu, contractio, arian a'r sector annibynnol i greu integreiddio
10: sut i osgoi'r math anghywir o integreiddio
11: sut i gefnogi a grymuso defnyddwyr i gymryd mwy o reolaeth
12: sut i rannu gwybodaeth yn ddiogel
13. sut i ddefnyddio'r gweithlu'n effeithiol
14: sut i osod amcanion a mesur cynnydd
15: sut i osgoi bod yn afrealistig ynglŷn â chostau
16: sut i adeiladu hyn yn strategaeth

[1] *Making integrated care happen at scale and pace: Lessons from experience.* Llundain: Cronfa'r Brenin, Mawrth 2013

**Y camau gweithredu angenrheidiol:**

1. **Erbyn diwedd Rhagfyr 2013** rhaid i bartneriaid lleol asesu eu sefyllfa bresennol a'r camau sydd angen eu cymryd, ar lefel model ac ardal/clwstwr yn erbyn yr 16 o ofynion yn y blwch uchod, a diffinio'r camau lleol angenrheidiol.

2. **Erbyn diwedd Ionawr 2014** rhaid i'r holl bartneriaid lleol gymeradwyo a chyhoeddi Datganiad o Fwriad ynghylch Gofal Integredig.

   Rhaid i'r Datganiad gynnwys asesiad gwaelodlin sy'n ofynnol o dan 1 uchod a dangos yn glir:

   - y byddant yn adeiladu gweithlu priodol ar draws yr holl bartneriaid fel cyfle cynnar i wella profiad y dinesydd;

   - y byddant yn canolbwyntio'n ddiwyro ar ddarparu gwasanaethau lleol sydd wedi'u cyd-gynhyrchu ac sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan ganolbwyntio ar rôl ganolog gwasanaethau gofal sylfaenol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;

   - byddant yn cynnal trefniadau partneriaeth lleol cadarn sy'n adlewyrchu parodrwydd i ddirprwyo cyfrifoldebau;

   - byddant yn sicrhau arweinyddiaeth ac ymrwymiad ar bob lefel ac ar draws pob sector, gyda threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd penodol;

   - bydd un cynllun comisiynu'n cael ei weithredu gan yr holl bartneriaid, gan symud dros amser i ddull cyson trwy Gymru;

   - bydd trefn o reoli adnoddau ar y cyd yn cael ei rheoli trwy opsiynau, gan gynnwys fframwaith llywodraethu ariannol; amcanion a chynlluniau comisiynu ar y cyd; cyllidebau wedi eu cronni a/neu integredig.

   - y trefniadau cyllidebau cyfun sydd ar waith ar hyn o bryd, yn ogystal â chynlluniau i ymestyn y dull hwn.

3. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r asesiadau gwaelodlin yn y Datganiad o Fwriad fel ffordd o adolygu cynnydd i sicrhau'r gofynion yn y ddogfen hon.

4. Hefyd, **erbyn diwedd Ionawr 2013**, wrth ddatblygu'r gwasanaeth, dylai partneriaid, gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth a'u profiadau a'u hasedau eu hunain, ddatblygu mesurau canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol lleol a rennir a fydd yn dangos effaith integreiddio ac yn symbylu cynnydd pellach.

5. Erbyn **Medi 2014** dylai partneriaid sicrhau bod mecanweithiau cynllunio lleol yn adlewyrchu'r gofyniad bod cynllunio ar y cyd ar lefel leol yn seiliedig ar fodel sy'n canolbwyntio ar y dinesydd sy'n caniatáu i bobl hŷn yng Nghymru gael llais a chadw rheolaeth dros eu bywyd.

6. **Erbyn Rhagfyr 2014** mae angen i bartneriaid fod wedi datblygu o fewn gwasanaethau prif ffrwd ar gyfer pobl hŷn wasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth, wedi eu cynllunio'n unol â'r Fframwaith hwn**.**

Mae'r matrics aeddfedrwydd sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad A y Fframwaith hwn yn cynnig dull ychwanegol i bartneriaid ei ddefnyddio i edrych ar sefyllfa bresennol cynllunio a darparu gwasanaeth cydweithredol lleol, a threfnu'r llwybr ymlaen a chael gwybodaeth am gynnydd.

## 5. Mesur Llwyddiant

Mae cydnabod a mesur llwyddiant wrth integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol. Bydd gan bob partner dargedau perfformiad a mesurau canlyniadau ar waith eisoes sy'n mesur cynnydd o ran datblygu gwasanaethau integredig.

Fel y nodwyd uchod bydd disgwyl i bartneriaid lleol sefydlu eu gwaelodlin, ar lefel model gwasanaeth cyhoeddus ac ardal/clwstwr yn erbyn yr 16 o ofynion a gosod y rhain yn y Datganiad o Fwriad a hefyd cytuno ar eu blaenoriaethau a'u mesurau eu hunain i'w defnyddio i asesu pa mor gyflym mae'r newid yn digwydd. Dylid adrodd yn rheolaidd ynghylch y rhain i'r BILI a'r Awdurdod Lleol a chyrff eraill sydd â diddordeb.

Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r dangosyddion allweddol isod a addaswyd o ddogfen y Comisiwn Archwilio '*Joining up health and social care: Improving value for money across the interface*' (Rhagfyr 2011), ynghyd â'r data ar gael ar ofalwyr i fonitro cynnydd.

| **Y Dangosyddion Perfformiad: Dangosydd** | | **Y cyfeiriad a ragwelir** |
|---|---|---|
| **1** | Derbyniadau i'r ysbyty mewn argyfwng i bobl 65 oed a hŷn | Gostwng |
| **2** | Defnyddio gwelâu mewn argyfwng ar gyfer pobl 65 oed a hŷn | Gwell perfformiad wedi ei feincnodi yn erbyn Grŵp Cymheiriad CHKS © |
| **3** | Newid yn y cydbwysedd o ddarpariaeth cartref gofal i ddarpariaeth gofal yn y cartref | Cynorthwyo mwy o bobl yn eu cartrefi eu hunain |
| **4** | Osgoi derbyniadau ac ail-dderbyniadau i'r ysbyty drwy fodelau ymyrraeth priodol yn y gymuned | Cynyddu |
| **5** | Data ar gwympiadau'n cael ei gasglu a'i gyflwyno i'r Rhaglen Gydweithredol ar Leihau Niwed o Gwympiadau | Gwelliant Parhaus yn cael ei feincnodi â'r rhaglen gydweithredol |
| **6** | Derbyniadau i gartrefi gofal yn uniongyrchol o ysbytai acíwt | Gostwng |
| **7** | Rhyddhau i gartref arferol | Cynyddu |
| **8** | Nifer y bobl sy'n dewis ble i farw (gwasanaethau diwedd oes) | Cynyddu |
| **9** | Mynd i'r ysbyty'n annisgwyl | Gostwng |
| **10** | Ail-dderbyniad i'r ysbyty cyn pen 14 diwrnod ar ôl i'r claf gael ei ryddhau | Gostwng |

| | | |
|---|---|---|
| **11** | Oedi wrth drosglwyddo gofal oherwydd gorfod aros am becynnau gofal neu addasiadau i amgylchedd y cartref | Gostwng |
| **12** | Cyfran y gofalwyr a gaiff eu hasesu | Cynyddu |

## 6. Y camau nesaf

Bydd proses ymgynghori 12 wythnos yn cychwyn nawr. Bydd y broses yn gofyn am ymatebion i faterion penodol, er enghraifft beth yw'r ffordd orau o gael gwybodaeth a mesur llwyddiant, a bydd hefyd yn rhoi cyfle i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr, y cyhoedd, sefydliadau sydd â diddordeb, cyrff statudol lleol a darparwyr, ac eraill rannu eu safbwyntiau ynglŷn â'r amcanion cyffredinol a'r dull arfaethedig.

Dylid anfon ymatebion erbyn 31 Hydref at:

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3 NQ

E-bost: Albert.Heaney@Wales.gsi.gov.uk

# Matrics Aeddfedrwydd i Gefnogi Partneriaethau Gofal Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Defnyddio'r matrics: Nodwch y lefel yr ydych yn credu fod eich partneriaeth wedi ei chyrraedd ar gyfer pob prif elfen ac yna gwnewch saeth at y lefel yr ydych yn bwriadu ei chyrraedd o fewn y 12 mis nesaf. Adolygwch sefyllfa matrics aeddfedrwydd y bartneriaeth yn gyson.

0 – – → ?

| Lefelau Cynnydd → <br> Prif Elfennau ↓ | 0 <br> Dim | 1 <br> **Lefel sylfaenol** <br> Yr egwyddor wedi ei derbyn ac ymrwymiad i weithredu | 2 <br> **Cynnydd cynnar** <br> Cynnydd cynnar ar y gweill | 3 <br> **Canlyniadau** <br> Cyflawniadau cychwynnol yn amlwg | 4 <br> **Aeddfedrwydd** <br> Sicrwydd cynhwysfawr wedi'i sefydlu | 5 <br> **Patrwm enghreifftiol** <br> Eraill yn dysgu o'n cyflawniadau cyson |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwrpas a gweledigaeth | | Trafodwyd a chytunwyd ar y pwrpas, ac fe'u cofnodwyd. Cytunwyd ar y gwerthoedd a'r blaenoriaethau, a'u cofnodi. Cytundeb gwleidyddol i Integreiddio wedi ei gadarnhau a'i gofnodi ar draws Iechyd, Gofal Cymdeithasol, y Trydydd Sector a Phartneriaid. 'Partneriaeth Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol' (PIIGC) yn deall ei rôl. | Cytunwyd ar flaenoriaethau a nodau heriol gyda rhanddeiliaid. Cytunwyd ar fecanwaith cadarn ar gyfer ychwanegu a thynnu gwasanaethau a/neu leoliadau gofal. Cynlluniau wedi eu gwreiddio yn anghenion y boblogaeth leol. | Tystiolaeth fod blaenoriaethau'n cael eu sicrhau, gyda chynnydd tuag at nodau heriol mewn rhai meysydd. Tystiolaeth o ymwneud â dinasyddion ac atebolrwydd cyhoeddus yn profi pwrpas a gweledigaeth. Gwaith presennol y bartneriaeth yn cael ei ystyried. | Cyfateb yn systematig sut mae'r pwrpas yn cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth. Tystiolaeth fod gofal integredig yn gwella ansawdd gwasanaethau a phrofiad i'r dinesydd. | Hyderus fod y pwrpas a'r weledigaeth yn cael eu cyflawni wrth i iechyd y boblogaeth elwa yn unol â chynlluniau. Cynlluniau iechyd lleol, comisiynwyr awdurdod lleol, y trydydd sector a phartneriaid eraill wedi eu dylanwadu. Tystiolaeth fod llai o wastraff a dyblygu trwy osgoi dyblygu a gofal tameidiog. |
| Strategaeth | | Mae strategaethau'r holl randdeiliaid yn berthnasol i'r gwaith a gasglwyd a'r amserlen a bennwyd ar gyfer datblygu strategaeth integredig. Sail i holl benderfyniadau strategol 'PIIGC'. Cymeradwyaeth wleidyddol gan bob partner i'r strategaeth | Y gwaith o ddatblygu'r strategaeth ar y gweill. Trefniadau ar waith ar gyfer meysydd cynllunio/comisiynu ar y cyd a chyfleoedd i fuddsoddi. | Strategaeth wedi ei chyhoeddi ar hyn o bryd gan y 'PIIGC', sy'n cynnwys cerrig milltir ar gyfer gwelliannau a sut byddant yn cael eu mesur a'u monitro. | Strategaeth wedi ei mireinio ar ôl llwyddo i gyrraedd cerrig milltir, a gwybodaeth ac uchelgeisiau newydd. | Strategaeth wedi bod o fudd i economïau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, yn ogystal â dylanwadu ar gyfeiriad strategol bob sefydliad lleol yn y bartneriaeth |
| Arweinyddiaeth yr economi integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol lleol | | Cytunwyd ynglŷn ag arweinyddiaeth y 'PIIGC' a phenodwyd arweinwyr. Prif randdeiliaid yn ymwybodol o arweinwyr ac yn gwybod sut i gysylltu. Rhanddeiliaid perthnasol wedi eu nodi a'u gwahodd i gymryd rhan. Dealltwriaeth o adnoddau iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid. | Trafodwyd a chytunwyd ar ddatblygiad arweinyddiaeth ar gyfer 'PIIGC'. Cynlluniau datblygu wedi eu cyflwyno. Rhanddeiliaid yn deall materion arweinyddiaeth. Rhanddeiliaid perthnasol yn mynychu'n rheolaidd ac yn darparumewnbwn i'r rhaglen waith. | Canlyniadau gweithio mewn partneriaeth yn cael eu hadolygu'n systematig. Perthnasoedd gyda phartneriaid yn gadarnhaol a thrafodaethau parhaus ynglŷn â chynllunio, comisiynu, penderfyniadau contractio a chyfleoedd i fuddsoddi ar y cyd. Llais Iechyd Cyhoeddus yn amlwg mewn penderfyniadau. | Adolygu llwyddiant y dull arweinyddiaeth. Cynlluniau olynol parhaus ar waith. Manteision gweithio mewn partneriaeth wedi galluogi i ran fwyaf y rhanddeiliaid gyflawni eu hamcanion o ran gwella a dyrannu adnoddau. | Manteision gweithio mewn partneriaeth wedi galluogi i ran fwyaf y rhanddeiliaid ragori ar eu hamcanion i sicrhau gwelliannau. Canlyniadau wedi gwella ac yn bosibl olrhain hyn i'r cynlluniau o'r 'PIIGC'. |
| Llywodraethu | | Aelodaeth a chylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd 'PIIGC' wedi eu drafftio a'u rhannu. | Bwrdd 'PIIGC' wedi ei sefydlu a chytunwyd ar y cylch busnes blynyddol cyntaf. Perthnasoedd gyda sefydliadau lleol perthnasol yn cael eu datblygu. | Rhanddeiliaid lleol wedi cynnwys yn glir atebolrwydd y Bwrdd 'PIIGC' yn eu trefniadau llywodraeth eu hunain. | Bwrdd 'PIIGC' wedi adolygu ei flwyddyn gyntaf o waith trwy broses adolygu flynyddol strwythuredig ac wedi gwneud gwelliannau i'r strwythur a'r sefydliad. | Manteision llywodraethu da wedi eu nodi a'r Bwrdd 'PIIGC' yn gwybod bod gwell arfer llywodraethu wedi dylanwadu ar sefydliadau lleol yn y bartneriaeth. |
| Gwybodaeth a hysbysrwydd | | Gofynion o ran gwybodaeth wedi eu nodi a chytunwyd ar fformat y dangosfwrdd cychwynnol. | Wedi datblygu dangosfwrdd o wybodaeth allweddol ac mae gwelliannau o ran gwybodaeth yn parhau. Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn adlewyrchu amcanion perfformiad a rennir ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid. | 'PIIGC' yn dweud ei bod yn hyderus ynglŷn â lefelau gwybodaeth y maent yn eu derbyn, a bod systemau gwybodaeth yn ddibynadwy ac yn gweithio. 'PIIGC' yn derbyn tystiolaeth o wella perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol. | 'PIIGC' yn cael ei dylanwadu gan wybodaeth amser real, sy'n dangos gwell canlyniadau, ansawdd ac effeithiolrwydd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. | Un system wybodaeth wedi ei sefydlu ac yn cael ei defnyddio ar draws y bartneriaeth. Meincnodi perfformiad a chanlyniadau yn erbyn perfformwyr gorau. |
| Arbenigedd a sgiliau | | Nodwyd a chytunwyd ar sgiliau ac arbenigedd ar gyfer 'PIIGC'. <br> . | Sesiynau cynefino a chynlluniau datblygu ar gyfer partneriaid a staff 'PIIGC' ar waith. | Y 'PIIGC' yn dylanwadu ar sgiliau a hynny'n amlwg trwy lwyddiant a newidiadau cadarnhaol i gynllunio lleol a phatrwm darparu gwasanaethau lleol. <br> . | Y 'PIIGC' yn cefnogi BILl, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a phartneriaid trwy werthfawrogi cynllunio / sgiliau allweddol. Bwrdd 'PIIGC' yn gweithredu fel fforwm i gyflwyno sgiliau arbenigol ac arbenigedd i gefnogi cynllunio / comisiynu | Y 'PIIGC' yn dylanwadu ar ddatblygiad trefniadol sefydliadau yn y bartneriaeth. Yr economi iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn cael ei gydnabod fel dewis da fel gyrfa ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes cynllunio /comisiynu. |

*Term generig yw 'PIIGC' i bwrpas y matrics hwn. Defnyddiwch y term lleol sy'n cyfateb iddo yn ei le.

Ffynhonnell: Addaswyd o Fatrics Aeddfedrwydd Iechyd a Lles Llundain

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn XX:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddienw, ticiwch yma: ☐

This page is intentionally left blank